# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Cynghorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr I. Buckley, C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci, I.A.N. Perry a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), B. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), H. Payne a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

## 449 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 450 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2022 fel cofnod cywir.

## 451 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 452 STRATEGAETH ARIANNOL 2023/24 A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG ADNEWYDDU (CYF) -

Cyflwynwyd y cyfeiriad a'r adroddiad o'r Cabinet ar 6 Hydref 2022 fel y'u ceir o fewn yr agenda.

Pwrpas yr adroddiad oedd adolygu'r pwysau ariannol dros y tymor canolig a sefydlu strategaeth ar gyfer cyflawni cyllideb 2023/24 a chyllid cynaliadwy dros y tymor canolig. Dywedodd y Prif Gyfrifydd fod y Cyngor ar hyn o bryd yn amcangyfrif bwlch o £28m yn y gyllideb ar gyfer 2023/24. Roedd pwysau cost

wedi ei amlygu gwerth £38m. Dywedwyd bod bron £22m o'r pwysau hyn o ganlyniad i effeithiau chwyddiant felly byddai'n hynod anodd lliniaru yn eu herbyn. Roedd y Cyngor hefyd wedi adolygu ei adnoddau a'i lefelau ariannu ac ar hyn o bryd roedd yn amcangyfrif cynnydd o £10m mewn cyllid ar gyfer 2023/24. Roedd y sefyllfa bresennol yn tybio cynnydd o 3.5% yng nghyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 a 2.5% ar gyfer 2024/25 fel yr awgrymwyd yn setliad ariannol y llynedd. Tybiwyd y byddai’r Dreth Gyngor yn cynyddu gan 3.9% ond roedd hyn ar gyfer dibenion cynllunio’n unig, a byddai'n destun penderfyniad polisi yn ddiweddarach yn y broses. Esboniodd y Prif Gyfrifydd ei bod yn debygol y byddai'r setliad dros dro yn cael ei roi cyn diwedd Rhagfyr a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd o ran cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24. Byddai'r Gweithgor Cyllideb, a oedd yn cynnwys yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd, Aelodau Cabinet a Swyddogion, yn herio'r holl bwysau o ran costau ac yn llunio cynigion arbed a fyddai hefyd yn destun proses herio fewnol, o ystyried yr heriau ariannol oedd yn wynebu’r Cyngor. Byddai'r rhain yn llywio cyllideb amlinellol ar gyfer cyflwyno ymgynghoriad pellach ym mis Ionawr 2023 a fyddai'n cael ei adrodd yn ôl drwy'r holl Bwyllgorau Craffu.

Roedd disgwyl i'r Canghellor wneud cyhoeddiad am y gyllideb ar ddydd Iau, 17 Tachwedd gyda chyhoeddiad setliad Llywodraeth Cymru yn cael ei ragweld ddiwedd Rhagfyr 2022.

Dywedodd y Cynghorydd Hooper na ellid disgwyl i'r Cyngor ddibynnu ar San Steffan i ddatrys y materion ariannol, ac y byddai cyfyngiadau hefyd ar allu Llywodraeth Cymru hefyd. Gofynnodd beth oedd sefyllfa’r Cyngor o ran ei ddiogelu ei hun yn erbyn unrhyw ddiffygion pellach yn y gyllideb yn y dyfodol ac awgrymodd y dylai'r Cyngor fod yn mabwysiadu dull cyllideb sero sylfaenol.

Dywedodd y swyddog fod y Cyngor wedi bod yn ddarbodus dros y blynyddoedd ac roedd ganddo gronfeydd wrth gefn sylweddol er yn cydnabod mai dim ond unwaith y gellid defnyddio'r rhain a dywedodd y byddai'r Cyngor hefyd yn ystyried ble y gallai fuddsoddi peth o'i gronfeydd wrth gefn gyda strategaeth buddsoddi i gynilo. Roedd cyllidebu ar sail sero wedi cael ei awgrymu o'r blaen, ond roedd hyn yn ddwys iawn o ran adnoddau.

Fe wnaeth y Cynghorydd Champion, o ystyried y cynnydd cyflog diweddar a gofynion cyflog posibl yn y dyfodol, holi am y sefyllfa i'r Cyngor ac a oedd y Cyngor wedi tanwario yn y flwyddyn flaenorol o ganlyniad i COVID 19. Dywedodd y swyddog mewn ymateb fod 3% wedi ei ragweld ar gyfer y cynnydd cyflog eleni er bod hyn yn agosach at 7% yn y pen draw eleni a oedd wedi'i gytuno'n ddiweddar. Ond roedd y Cyngor yn rhagweld cynnydd pellach o 3% mewn cyflogau am y flwyddyn ganlynol. Roedd £18m wedi ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2021/22, gyda pheth o hyn wedi ei neilltuo ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.

Yn dilyn ymholiad ynglŷn â'r bwriad i gynnig cynnydd o 3.9% yn y Dreth Gyngor, dywedodd y Cynghorydd Ernest y gallai fod angen edrych ar gynlluniau cyfalaf yn y dyfodol a gohirio rhai yn sgil y sefyllfa ariannol a holodd hefyd ynghylch gwaith y rhaglen ail-lunio gwasanaethau. Dywedodd y swyddog mewn ymateb fod y Cyngor o dan bwysau i gynyddu ei ffynonellau incwm ac er bod y cynigion

presennol yn seiliedig ar dybiaeth o 3.9%, mater i gytundeb a thrafodaeth yn y dyfodol oedd hwn.   O ran cynlluniau cyfalaf, dywedodd y swyddog bod llinell denau  rhwng gwariant ar gyfalaf a refeniw felly gallai oedi gwariant ar gynllun cyfalaf greu costau atgyweirio pellach o fewn cyllidebau refeniw.  Nodwyd rhoi wynebau newydd ar ffyrdd fel enghraifft.  Pe na bai gwariant cyfalaf yn cael ei gynnal ar y rhwydwaith priffyrdd byddai hyn yn aml yn arwain at gostau atgyweirio pellach o'r gyllideb refeniw wrth atgyweirio tyllau yn y ffordd.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson (Aelod Cabinet dros Gymdogaethau a Gwasanaethau Adeiladau) gyda chaniatâd y Pwyllgor i siarad, fod dau reswm pam efallai na fydd yn gallu gohirio rhai cynlluniau cyfalaf h.y. oherwydd pryderon iechyd a diogelwch a chynnal a chadw angenrheidiol.  Fe wnaeth y Cynghorydd Wilson hefyd gynnig cyfle i unrhyw Aelod fynd ato'n uniongyrchol, os oedden nhw'n dymuno, gydag unrhyw awgrymiadau y gallai fod ganddynt ynghylch cynigion ar gyfer arbedion yn y dyfodol.

Tynnodd y Cynghorydd Burnett (Arweinydd y Cyngor), wrth gyfeirio at yr awgrym o gyllideb sero, sylw at y pwysau chwyddiant o £21m oedd yn wynebu'r Cyngor, a dywedodd fod Cyfarwyddwyr wedi cael cais i edrych ar eu priod feysydd gwasanaeth yn fanwl er mwyn tynnu sylw at feysydd ar gyfer cynilion neu gyfleoedd incwm ychwanegol.  Roedd yn bwysig nodi bod y gwaith o gynnal a chadw ysgolion hŷn yn costio tua £2m y flwyddyn, a bod angen ei wneud.  Er mwyn cynorthwyo'r Aelodau fe awgrymodd yr Arweinydd hefyd y byddai'n werth chweil darllen dau adroddiad a gyhoeddwyd bob blwyddyn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.  I gloi, dywedodd yr Arweinydd, o ran ail-lunio gwasanaethau, fod y gwasanaeth llyfrgell a Chwmni Arlwyo Big Fresh yn ddwy enghraifft wych.

Yn dilyn y drafodaeth ynghylch pwysau ar gostau yn y dyfodol, manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i awgrymu y gallai'r Cyngor, wrth symud ymlaen, ystyried sefydlu gwasanaeth recriwtio mewnol ar y cyd â Chyngor arall neu nifer o Awdurdodau Lleol eraill.  Er y byddai hyn o bosib yn gyfraniad bach i'r sefyllfa ariannol dywedodd y Cadeirydd ei bod hi'n bwysig bod yr Aelodau yn ystyried cyflwyno unrhyw awgrymiadau y gellid eu dilyn i gefnogi swyddogion a'r Cyngor wrth geisio mynd i'r afael â'r sefyllfa.

Awgrymodd y Cynghorydd Buckley hefyd y dylid ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd o gydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill o ran caffael a phrynu nwyddau traul, rheoli fflyd ac ati.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach,

ARGYMHELLWYD - Y dylid nodi'r adroddiad a gofyn i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ystyried archwilio gwasanaethau recriwtio mewnol ar y cyd a chyfleoedd caffael ar y cyd pellach gydag Awdurdodau Lleol eraill, er enghraifft rheoli fflyd ar y cyd a phrynu nwyddau traul a hysbysu'r Cabinet yn unol â hynny.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried yr adroddiad ac awgrymiadau ar gyfer cyfleoedd arbedion ac er mwyn cynghori'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a'r Cabinet.

453 STRATEGAETH GYFALAF DDRAFFT 2023/24 A CHYNIGION RHAGLEN GYFALAF GYCHWYNNOL 2023/24 I 2027/28 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o'r Cabinet ar 6 Hydref 2022 fel y'i ceir o fewn yr agenda.

Yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor cododd y Cadeirydd ymholiad ynghylch sut roedd y cynnydd yn y gyfradd llog yn mynd i effeithio ar fenthyca cyfalaf. Dywedodd y Prif Gyfrifydd mewn ymateb bod cronfeydd wrth gefn sylweddol yn y cyfrif CRT ond dros y blynyddoedd nesaf byddai'n rhaid i'r Cyngor ystyried benthyca pellach a byddai hyn wedyn yn dibynnu ar y gyfradd llog ar y pryd. Cydnabuwyd pe byddai cyfraddau llog yn cynyddu yna byddai benthyca yn costio mwy ac efallai y byddai'n rhaid lleihau rhai cynlluniau yn unol â hynny.

Holodd y Cynghorydd Hooper am y newidiadau arfaethedig i'r strategaeth fuddsoddi a gofynnodd a oedd gan y Cyngor y gallu i ystyried buddsoddi mewn busnesau newydd. Eto, wrth ymateb dywedodd y Swyddog mai agwedd y Cyngor at risg oedd cadw risg mor isel â phosib. Roedd hefyd yn bwysig bod y Cyngor yn ystyried mesurau eraill, er enghraifft buddsoddi i gynilo ac fel enghraifft cyfeiriodd at y buddsoddiad yn y sector Gwyrdd, gyda'r angen i ystyried ymdrechion i leihau dibyniaeth ar danwyddau ffosil yn ogystal â chostau ynni. Holodd y Cynghorydd Hooper ymhellach a oedd gan y Cyngor y sgiliau i adnabod meysydd ar gyfer buddsoddi, a nododd y gallai'r Cyngor ystyried partnera â sefydliadau eraill i sicrhau bod unrhyw fuddsoddiadau'n cynyddu arbedion yn y dyfodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod y gronfa wedi'i sefydlu'n wahanol i fodel buddsoddi Thurrock fel yr amlinellir ym mharagraff 2.9 yr adroddiad ac ar hyn o bryd roedd y Cyngor yn datblygu strategaeth fuddsoddi a fyddai'n sail i unrhyw fwlch ariannu yn y dyfodol. Roedd y Cyngor yn cydnabod nad oedd arbenigwyr ym mhob maes ac felly roedd gweithio gyda phartneriaid yn hanfodol, er enghraifft roedd P-RC (Prifddinas-Ranbarth Caerdydd) wedi cyflogi CBRE (gwasanaeth Eiddo Tiriog Masnachol Byd-eang) i gynghori ar unrhyw fuddsoddiadau a wnânt. Cadarnhawyd y byddai'r cynllun yn cefnogi'r Cyngor i ymateb i heriau ariannol mawr gan gynnwys pwysau macro-economaidd eang, cyllid cyhoeddus cyfyngedig, pwysau costau byw a'r angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD - BOD yr adroddiad yn cael ei nodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

454 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEDI, 2022 (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2022. Dangoswyd y manylion fesul cynllun yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Rhoddodd Atodiad 2 grynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cyngor ar 7 Mawrth 2022 i 30 Medi 2022, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad.

Nododd yr adroddiad unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai'r blynyddoedd i ddod.

Roedd cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau, a allai olygu bod angen ail-drefnu neu ail-dendro cynlluniau, gan arwain at oedi i brosiectau. Roedd swyddogion prosiect hefyd yn adrodd amseroedd aros hir ar gyfer deunyddiau a phrinder sgiliau mewn rhai meysydd.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y rhaglen gymeradwy bresennol o £95.105 miliwn ond roedd yn bwysig nodi nad oedd hyn yn debygol o gael ei gyflwyno a gofynnwyd am lithriad o £2.524 miliwn. Byddai cynlluniau'n parhau i gael eu monitro'n agos fel rhan o'r trefniadau monitro rheolaidd gyda rheolwyr a noddwyr y prosiect. Byddai rhagor o lithriadau'n cael eu hadrodd mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Manteisiodd y Cynghorydd Hooper ar y cyfle i holi ynglŷn â'r sefyllfa o ran yr adolygiad o gynlluniau trwyddedau parcio. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth mewn ymateb fod yr Adran ar hyn o bryd yn adolygu pob ardal ledled y Fro oedd wedi cael cynlluniau trwyddedau newydd wedi'u rhoi ar waith gyda'r cam nesaf yn adroddiad i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach yn y Flwyddyn Newydd.

Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23.

(2) Nodi'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig fel y nodir yn yr adroddiad.

(3) Nodi'r defnydd o Bwerau Brys fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

(4) Nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai'r blynyddoedd i ddod fel y nodir isod.

- Goleuadau Stryd ar hyd Frampton Lane - Cynyddu cyllideb y cynllun hwn £5k yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23, i'w ariannu gan gyfraniad arian A106.
- Pont Llyfrgell Dinas Powys – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £2k i'w hariannu gan gyfraniad refeniw amgylchedd a thai.

- Ardal Chwarae Cosmeston – Trosglwyddo £13k o gynllun Ardal Chwarae Cosmeston i Gynllun Ardal Chwarae Porthceri.
- Gerddi'r Cnap - prosiect dŵr a bioamrywiaeth – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £6k, i'w ariannu gan gyfraniad arian A106.
- Ysgol Sant Curig - Adnewyddu goleuadau - Dwyn ymlaen £56k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Adolygu newidiadau i gynlluniau trwyddedau parcio - Dwyn ymlaen £55k i raglen Gyfalaf 2023/24.
- Canolfan Hamdden Penarth - Ffenestri Gwydr Lefel Uchel - Dwyn ymlaen £1,546k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Cronfa Partneriaeth Adfywio'r Barri - Dwyn ymlaen £689k i Raglen Gyfalaf 2022/23.
- Cyfleusterau Chwaraeon Cymunedol Murchfield - Dwyn ymlaen £178k i Raglen Gyfalaf 2023/24.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1-4) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf, y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Brys a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

455 TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU CHWARTER 1AF AC 2IL 2022/23 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2022/23 (PW) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnydd argymhellion hanesyddol gan y Pwyllgor Craffu a'r Flaenraglen Waith oedd wedi'i diweddaru ar gyfer 2022/23:

Tracio Argymhellion Chwarter 1 Ebrill i Fehefin 2022 (Atodiad A)
Tracio Argymhellion Chwarter 2 - Gorffennaf i Fedi 2022 (Atodiad B);
Olrhain Argymhellion heb eu Cwblhau, 2019-20 (Atodiad C); ac
Amserlen Blaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2022/23 (Atodiad D).

Wrth nodi nad oedd ymweliad y safle â Gorsaf Drosglwyddo'r Bont-faen wedi gallu digwydd, dywedwyd y byddai ymweliadau pellach yn cael eu trefnu ar ôl cwblhau'r safle yn Y Barri, fodd bynnag, gofynnodd y Cynghorydd Champion a fyddai modd ymweld â safle'r Bont-faen yn gynt dros y misoedd nesaf cyn cwblhau safle'r Barri, gyda'r Pennaeth Gwasanaeth yn dweud y byddai trefniadau'n cael eu gwneud a byddid yn cysylltu ag Aelodau i ystyried trefniadau ar gyfer ymweliad cynharach.

Gan gydnabod bod y Cyngor yn aros i setliad Llywodraeth Cymru gael ei gwblhau, a oedd yn debygol o ddod i'r Cyngor erbyn diwedd mis Rhagfyr, awgrymwyd y dylid nodi y byddai'r adroddiad ar gynnig y gyllideb ar gyfer 2022/23 yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror, ac wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B.

(2) Bod yr ymweliad â chyfleuster Trosglwyddo Ailgylchu Gwastraff y Bont-faen, y cyfeirir ato yn Atodiad C, yn cael ei aildrefnu cyn gynted â phosibl a bod yr ymweliad â safle'r Barri yn cael ei gynnal ar ôl cwblhau'r safle.

(3) Cymeradwyo'r Rhaglen Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i Diweddaru ar gyfer 2022/23 sydd ynghlwm yn Atodiad D i'r adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor yn amodol ar gynnwys adroddiad Cynigion Cyllideb 22/23 yn y rhaglen ar gyfer y Pwyllgorau. cyfarfod ym mis Chwefror 2023.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor allu cynnal ymweliad cyn gynted â phosibl.

(3) Gan roi sylw i'r adroddiad ychwanegol ac er gwybodaeth i'r cyhoedd.